# Cylchlythyr System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

## System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

### Recriwtio

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), mewn partneriaeth â GP Wales a Llywodraeth Cymru, wedi datblygu gwefan reddfol a llyfn er mwyn i Bractisiau Meddyg Teulu yng Nghymru hysbysebu a rheoli swyddi gwag yn rhad ac am ddim.
Mae amrywiaeth o adnoddau ar y wefan Recriwtio i'ch helpu i wneud hyn gan gynnwys templedi Swydd-ddisgrifiad, Canllawiau Hysbysebu a Chwestiynau Cyffredin.
Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i ddefnyddio GP Wales, cysylltwch â'r tîm yn uniongyrchol yn support@gpwales.co.uk

Os oes angen unrhyw gyngor neu help arnoch i hysbysebu eich swyddi gwag, cysylltwch â Thîm Hysbysebu Gofal Sylfaenol PCGC yn NWSSP.GPadverts@wales.nhs.uk

### Taliadau Capasiti Ychwanegol

Er mwyn helpu ein tîm i ddilysu unrhyw hawliadau ar gyfer taliadau capasiti ychwanegol (ACP) yn gyflym a wnewch drwy eich Bwrdd Iechyd, sicrhewch y canlynol:

- Bod gan bob unigolyn a gyflogir yn uniongyrchol oriau ACP cyfatebol a adlewyrchir yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru
- Bod gan unrhyw feddygon teulu locwm ddigon o oriau wedi'u cofnodi yn Locum Hub Wales yn erbyn eich practis i ddilysu unrhyw hawliadau a gyflwynir

Nodwch 100% o'r oriau a weithiwyd yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru, er y gellir hawlio am ddim ond 50% o'r rhain ar gyfer ACP.  Dylai System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru bob amser adlewyrchu oriau gwaith gwirioneddol y rhai sy'n gweithio yn eich practis.

### Cyfle

- A oes gennych chi syniadau ynghylch sut y gallwn helpu i symleiddio'r broses o gasglu data'r gweithlu?
- A ydych yn aml wedi dymuno cael darn penodol o wybodaeth am y gweithlu a fyddai'n eich helpu yn eich rôl?
- A fyddai gennych ddiddordeb mewn cydweithio â ni ar unrhyw ddatblygiadau neu arloesiadau posibl yn y dyfodol i'r gwasanaethau a ddarparwn?

Os mai 'ie' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, yna rydym yn chwilio amdanoch chi!  Rydym yn chwilio am grŵp bach o Reolwyr Practis o bob rhan o Gymru a fyddai'n fodlon gweithio gyda ni o bryd i'w gilydd.  Os hoffech wybod mwy, rhowch eich manylion i ni drwy'r ffurflen ar-lein neu drwy anfon e-bost atom yn y cyfeiriad isod.



Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 02921 500544
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

Gwasanaethau Cyflogaeth
Y Bartneriaeth Cydwasanaethau
**Employment Services**
Shared Services Partnership

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan ar: http://www.nwssp.wales.nhs.uk